# Cofnodion Wedi'i Gadarnhau
## Cyfarfod Sesiwn Gyhoeddus Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru
## 16 Rhagfyr 2025 am 10:40, drwy Microsoft Teams

WEDI'I GADARNHAU

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol** | | |
| Kate Young | (KY) | Cadeirydd, Cyfarwyddwr Anweithredol |
| Clare Jenkins | (CJ) | Cyfarwyddwr Anweithredol, Is-gadeirydd y Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella |
| Tamsin Ramasut | (TR) | Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol |
| **Yn Bresennol:** | | |
| Olubanke Ajayi | (OA) | Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (yn Arsylwi) |
| Claire Birchall | (CB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Andrea Calise | (AC) | Rheolwr Archwilio, Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru |
| Paul Dalton | (PD) | Pennaeth Archwilio Mewnol, Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru |
| Katrina Febry | (KF) | Archwilio Cymru |
| Sophie Fuller | (SF) | Perfformiad a Gwella GIG Cymru (Ar gyfer Rhan B) |
| Danielle Gething | (DG) | Pennaeth Rheoli Risg (Ar gyfer eitem 8) |
| Ian Kent | (IK) | Pennaeth Adrodd a Rheoli Ariannol |
| Stuart Silcox | (SS) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig |
| Paul Veysey | (PV) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Martin Veale | (MV) | Ymgynghorydd Annibynnol |
| Angela Williams | (AW) | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Gweithrediadau a Chyllid |
| Steve Wyndham | (SW) | Archwilio Cymru |
| **Ymddiheuriadau** | | |
| Pippa Britton | (PB) | Cadeirydd y Bwrdd |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Huw David | (HD) | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| Nick Elliott | (NE) | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| Bree Gatica-Wilcox | (BG-W) | Cynrychiolydd Ochr y Staff |
| Dechreuodd y cyfarfod am 10:40 | | |

**Rhan B**

| **ACGC 1/2025.12.16** | **Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb** |
|---|---|

Agorodd KY y cyfarfod a chroesawodd bawb a oedd yn bresennol. Nododd bod y cyfarfod wedi'i gynnal yn electronig.

**Nodwyd** yr ymddiheuriadau am absenoldeb a oedd wedi dod i law.

**Nododd** y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn sicrhau cywirdeb y cofnodion, ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y byddai'r cofnodion wedi'u cytuno yn y cyfarfod nesaf ym mis Mawrth 2026.

| **ACGC 2/2025.12.16** | **Datganiadau o Fuddiant** |
|---|---|

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant yn ychwanegol i'r rhai a ddatgelwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant.

| **ACGC 3/2025.12.16** | **Perfformiad a Gwella GIG Cymru** |
|---|---|
| **ACGC 3.1/2025.12.16** | **Perfformiad a Gwella GIG Cymru - Adroddiad Sicrwydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol** |

**Ystyriodd** y Pwyllgor Adroddiad Sicrwydd Llywodraethu Corfforaethol Chwarterol Perfformiad a Gwella GIG Cymru, a oedd yn ymdrin â'r meysydd cydymffurfio canlynol: Rheoli Risg, Archwilio a Chaffael, Cydymffurfedd o ran Gwrth-dwyll a Llywodraethu Gwybodaeth.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, a oedd yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Awst a 31 Hydref 2025, nododd SF mai Claire Green ac Iain Hardcastle oedd noddwyr yr adroddiad, a hynny am y tro olaf. Penodwyd y Rheolwr Cyfarwyddwr newydd, Chris Clayton, ar 1 Rhagfyr 2025 ac ef fyddai'n gyfrifol am adrodd yn y dyfodol.

Roedd penodi'r Rheolwr Cyfarwyddwr newydd wedi lleihau'n sylweddol y Risg Gorfforaethol i Berfformiad a Gwella GIG Cymru ac i Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd problemau capasiti o fewn y tîm canolog wedi arafu cynnydd o ran rheoli argyfyngau, parhad busnes a'r rhaglen datblygu risg a sicrwydd gyffredinol. Roedd y gwaith wedi parhau, ond yn arafach er mwyn cynnal momentwm. Cyflwynodd SF grynodeb o'r gwaith a fanylwyd yn yr Adroddiad:

- Roedd yr Archwiliad Mewnol o Drefniadau Lletya wedi'i gwblhau, ac roedd tri allan o bum maes wedi cyflawni sicrwydd sylweddol. Roedd yr holl gamau gweithredu a nodwyd yn hysbys i'r uwch staff, ac roeddent yn cael sylw.
- Roedd achosion o dorri rheolau caffael wedi lleihau, gyda gwell ymgysylltiad â staff a chamau rhagweithiol. Nodwyd un achos o dorri rheolau caffael ar gyfer y cyfnod adrodd.
- Ni nodwyd unrhyw risgiau uchel, ac ni adroddwyd am unrhyw ddigwyddiadau o wrth-dwyll na phroblemau cyfredol mewn perthynas â chydymffurfedd o ran llywodraethu gwybodaeth.
- Roedd hyfforddiant gwrth-dwyll yn cael ei gyflwyno i grwpiau arweinwyr gweithredol ac arweinwyr busnes, ac fe'i cefnogwyd gan gydweithwyr cyllid.

WEDI'I GADARNHAU

Roedd adnodd ar SharePoint wrthi'n cael ei ddatblygu er mwyn darparu canllaw i'r staff am brosesau gwrth-dwyll.

Diolchodd y Pwyllgor i SF am yr adroddiad manwl, a gofynnodd am fanylion am y risg a adroddwyd i Iechyd Cyhoeddus Cymru. Esboniodd SF fod Perfformiad a Gwella GIG Cymru yn defnyddio'r un system DATIX ag Iechyd Cyhoeddus Cymru. Amlinellodd fod yr Uned yn cynnal Cofrestr Risg Gorfforaethol, a bod Cofrestrau lefel Cyfarwyddiaeth yn cael eu cynnal oddi tani. Cadarnhaodd fod gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod y system yn cyd-fynd yn llawn â pholisi Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer cofnodi pob risg ar DATIX ar gyfer uwchgyfeirio a dadansoddi risgiau cyfansawdd. Adolygwyd risgiau bob mis yng nghyfarfodydd ar y cyd â Llywodraeth Cymru; roedd adroddiadau strategol wedi'u cynllunio ddwywaith y flwyddyn ac roedd adolygiadau mewnol wedi'u cynllunio bob chwarter.

Nododd y Pwyllgor fod y tablau'n cynnwys cyfeiriadau at waith a oedd wedi'i ohirio, ac awgrymodd y dylai Adroddiadau gynnwys dyddiadau diwygiedig yn y dyfodol, a hynny er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor ddeall yr oedi yr adroddwyd amdano. Hefyd, gofynnodd y Pwyllgor a fyddai modd i'r dull o eirio mewn Adroddiadau yn y dyfodol hysbysu'r Pwyllgor am yr holl waith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod adrodd, ac a ellid osgoi geiriadaeth amwys.

Diolchodd y Pwyllgor i SF am y diweddariad.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

**Rheoli Risg (Chwarterol)**

- Cymerodd **sicrwydd** bod proses rheoli risg effeithiol o fewn Perfformiad a Gwella GIG Cymru.
- Cymerodd **sicrwydd** bod unrhyw risg a nodwyd gan Berfformiad a Gwella GIG Cymru yn yr adroddiad hwn yn berthnasol i Iechyd Cyhoeddus Cymru a'i bod wedi'i huwchgyfeirio'n briodol.

**Gweithgarwch Archwilio a Chaffael (Chwarterol)**

- **Nododd** fod cynllun archwilio Perfformiad a Gwella GIG Cymru ar gyfer 2025/26 wedi'i adrodd ar wahân.
- **Nododd** nad oes unrhyw weithgarwch archwilio newydd wedi ei gychwyn yn ystod y cyfnod adrodd.
- **Nodwyd** bod un achos o dorri amodau archwilio wedi'i adrodd ar gyfer y cyfnod.

**Cydymffurfedd Atal Twyll (Chwarterol)**

- **Nododd** nad oedd unrhyw weithgarwch Gwrth-dwyll wedi'i adrodd i Berfformiad a Gwella GIG Cymru yn ystod y cyfnod adrodd.

**Cydymffurfedd Llywodraethu Gwybodaeth (Chwarterol)**

- Cymerodd **sicrwydd** bod Perfformiad a Gwella GIG Cymru wedi cydymffurfio â Pholisi a phrosesau Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran Llywodraethu Gwybodaeth.
- Cymerodd **sicrwydd** bod unrhyw ddiffyg cydymffurfio a oedd yn gyfystyr â risg reoleiddiol i Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'i reoli'n briodol.

| | |
|---|---|
| **ACGC 3.3/2025.12.16** | **Perfformiad a Gwella GIG Cymru, Archwilio Mewnol** |

WEDI'I GADARNHAU

**Ystyriodd** y Pwyllgor Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol Perfformiad a Gwella GIG Cymru a'r Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol ar Gytundeb Lletya Perfformiad a Gwella GIG Cymru.

Cyfeiriodd PD at yr Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol; tynnodd sylw'r Pwyllgor at yr Atodiad ac amlinellodd y pedwar adolygiad arfaethedig. Roedd yr Adolygiad o Drefniadau Rheoli Risg yn mynd rhagddo.

Cyfeiriodd PD at yr Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol Terfynol ar y Cytundeb Lletya. Roedd yr Adroddiad yn canolbwyntio ar gyfrifoldebau Perfformiad a Gwella GIG Cymru o ran y cytundeb lletya a chydymffurfedd â'r gofynion. At ei gilydd, rhoddodd yr adolygiad sicrwydd rhesymol. O ran cryfderau, nododd yr archwiliad gynnydd da o ran gweithredu systemau, fframweithiau llywodraethu, a threfniadau adrodd, gan gynnwys gwaith adrodd rheolaidd ar reoli perfformiad ac adolygiadau ar y cyd â Llywodraeth Cymru. Roedd yn amlwg bod cyfrifoldebau'n cael eu dirprwyo ac roedd yr holl ddatganiadau o gydymffurfedd wedi'u llofnodi. Nodwyd dau argymhelliad â blaenoriaeth ganolig, gydag amserlenni rhesymol wedi'u cytuno ar gyfer gweithredu'r camau gweithredu.

Mynegodd y Pwyllgor eu gwerthfawrogiad i SF a'i thîm rheoli am y gwaith caled yn Perfformiad a Gwella GIG Cymru ar eu cynnydd gyda'r gwaith llywodraethu a sicrwydd yn ystod y 18 mis blaenorol a oedd wedi arwain at yr Adroddiad hwn.

Diolchodd y Cadeirydd i PD.

**Nododd** y Pwyllgor Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol Perfformiad a Gwella GIG Cymru.

| ACGC 4/2025.12.16 | Camau dod â'r cyfarfod i ben |
|---|---|

Gofynnwyd i'r Pwyllgor roi adborth ar y cyfarfod i LB.

**Dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor:** 22 Mawrth 2026

Diolchodd KY i bawb am eu cyfraniadau a daeth â Rhan B y cyfarfod i ben.

WEDI'I GADARNHAU

**Rhan A**

| | |
|---|---|
| **ACGC 5/2025.12.16** | **Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb** |

Nodwyd yr ymddiheuriadau am absenoldeb a oedd wedi dod i law.

| | |
|---|---|
| **ACGC 6/2025.12.16** | **Datganiadau o Fuddiant** |

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant yn ychwanegol i'r rhai a ddatgelwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant.

| | |
|---|---|
| **ACGC 7/2025.12.16** | **Archwilio Mewnol, Allanol a Chlinigol** |
| **ACGC 7.1/2025.12.16** | **Archwilio Mewnol** |
| **ACGC 7.1.1/2025.12.16** | **Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol** |

**Ystyriodd** y Pwyllgor yr Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol.

Rhannodd PD yr wybodaeth ddiweddaraf ar yr adroddiad cynnydd Archwilio Mewnol. Cyfeiriodd yr aelodau at Dabl 2 yn yr adroddiad, a oedd yn dangos cynnydd yn erbyn rhaglen waith y flwyddyn bresennol, a chadarnhaodd fod y cynnydd cyffredinol yn dda, a bod sawl adolygiad eisoes wedi'u cwblhau. Nodwyd adroddiad ychwanegol ar yr agenda a oedd yn ymwneud ag Adolygiad Effeithiolrwydd y Gofrestr Risg Gorfforaethol; roedd hwn yn ymddangos fel Drafft yn y tabl, ond roedd wedi'i gwblhau ers hynny. Mynegodd PD ei fodlonrwydd ar gyflymder y cynnydd.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd amserlen y rhaglen yn dangos bod sawl adolygiad wedi'u gohirio; o ganlyniad, byddai mwy o adroddiadau'n cael eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor ym mis Mawrth nag a ragwelwyd. Cadarnhaodd PD fod rhai adroddiadau wedi cael eu gohirio oherwydd adnoddau ar y ddwy ochr, digwyddiadau gweithredol ac amseriadau. Ar y cyfan, cadarnhaodd fod y gwaith o gyflawni'r rhaglen ar y trywydd iawn iddi gael ei chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol, ac roedd yn fodlon ar y cynnydd a oedd wedi'i wneud yn erbyn y cynllun.

Gofynnodd y Pwyllgor a ellid anfon adroddiadau a oedd wedi'u trefnu ar gyfer cyfarfod mis Mawrth at y Pwyllgor pan fyddai'r adroddiadau'n dod i law, a hynny yn lle eu cael gyda'r bwndel pan fyddai manylion y cyfarfod yn cael eu cyhoeddi ym mis Mawrth.

**Nododd** y Pwyllgor yr Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol.

| | |
|---|---|
| **ACGC 7.1.2/2025.12.16** | **Adroddiadau Archwilio Mewnol Terfynol** |

**Ystyriodd** y Pwyllgor dri Adroddiad Archwilio MewnolTerfynol, sef:

<u>Archwiliad Mewnol Terfynol ynghylch Cymorth Iechyd Meddwl (Sicrwydd Rhesymol) ar gyfer y Gweithlu:</u>

**Ystyriodd** y Pwyllgor yr Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol ar Gymorth Iechyd Meddwl ar gyfer y Gweithlu (Sicrwydd Rhesymol). Nododd AC ei fod yn cynnwys tri cham gweithredu â blaenoriaeth ganolig:

- Nid oedd hyfforddiant Rheoli Presenoldeb yn y Gwaith a ddarparwyd gan y tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol yn orfodol ar hyn o bryd. Dangosodd gwaith profi samplau nad oedd rhai rheolwyr llinell wedi cwblhau'r hyfforddiant, neu nad

oeddent yn ymwybodol ohono. Disgwyliwyd modiwl e-ddysgu Cymru gyfan erbyn mis Gorffennaf 2026. Ar ôl hynny, byddai cydymffurfedd yn cael ei monitro trwy ESR.
- Tynnodd y Broses Dychwelyd i'r Gwaith sylw at achosion lle na chofnodwyd absenoldebau'n brydlon ar ESR a lle'r oedd dogfennaeth, megis ffurflenni dychwelyd i'r gwaith neu gofnodion meddygol, ar goll neu'n anghyflawn. Eid i'r afael â'r materion trwy ddarparu hyfforddiant a gwaith codi ymwybyddiaeth ychwanegol gan y tîm Datblygu Pobl a Sefydliadol.
- Roedd y cam olaf yn ymwneud â Storio Dogfennau Salwch; er bod storfa ganolog yn bodoli, penderfynwyd nad yw pob cyfarwyddiaeth wedi dechrau ei defnyddio. Mae'r tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol wedi ymrwymo i weithio gyda'r holl dimau yr effeithir arnynt i sicrhau eu bod yn cydymffurfio, a hynny erbyn mis Ionawr 2026.

Trafododd y Pwyllgor problemau hysbys wrth ddefnyddio ESR, ac awgrymodd y dylid codi'r pryderon gyda'r gweithgor sy'n gyfrifol am ddarparu'r system newydd.

**Nododd** y Pwyllgor yr adroddiad, a chymerodd sicrwydd gan yr Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol (Sicrwydd Rhesymol) ar Gymorth Iechyd Meddwl ar gyfer y Gweithlu.

<u>Effeithiolrwydd y Gofrestr Risg Gorfforaethol (Sicrwydd Rhesymol):</u>

**Ystyriodd** y Pwyllgor yr Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol ar Effeithiolrwydd y Gofrestr Risg Gorfforaethol (Sicrwydd Rhesymol). Nododd AC ei fod yn cynnwys dau argymhelliad â blaenoriaeth ganolig:
- Ystyriwyd bod y diffiniadau o lefelau o ran y parodrwydd i dderbyn risg yn amwys; roedd hyn yn creu potensial ar gyfer dehongliad anghyson. Derbyniodd y rheolwyr y canfyddiad, a chytunodd i gryfhau'r diffiniadau yn ystod yr adolygiad nesaf sydd wedi'i drefnu ar gyfer mis Gorffennaf 2026.
- Canfuwyd bod cyfraddau cydymffurfio ar gyfer Hyfforddiant Rheoli Risg yn isel. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn ei gwneud yn ofynnol i bob aelod o staff gwblhau hyfforddiant rheoli risg Lefel 1. Mae hyn yn gosod safon uwch nag y cytunodd llawer o sefydliadau a rheolwyr arni, a hynny er mwyn gwella cydymffurfedd erbyn mis Mawrth 2026. Mae canran darged i'w chadarnhau.

**Nododd** y Pwyllgor yr adroddiad a chymerodd **sicrwydd** o'r Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol ar Effeithiolrwydd y Gofrestr Risg Gorfforaethol (Sicrwydd Rhesymol).

<u>Trefniadau Lletya Perfformiad a Gwella GIG Cymru (Sicrwydd Sylweddol):</u>

**Ystyriodd** y Pwyllgor yr Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol ar Drefniadau Lletya Perfformiad a Gwella GIG Cymru (Sicrwydd Sylweddol). Nododd PD nad oedd yr Adroddiad yn cynnwys unrhyw argymhellion.

Cydnabu'r Pwyllgor lefel y gwaith a wnaed o fewn y ddau Sefydliad i gyflawni'r lefel sicrwydd uchel hon.

**Nododd** y Pwyllgor yr adroddiad a chymerodd sicrwydd o'r Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol ar Drefniadau Lletya Perfformiad a Gwella GIG Cymru (Sicrwydd Sylweddol).

Diolchodd KY i PD ac AC am y tri Adroddiad Archwilio Mewnol terfynol a gyflwynwyd.

**Egwyl**

| **ACGC 7.2/2025.12.16** | **Archwilio Allanol** |
|---|---|

Cyflwynodd SW a KF Adroddiad Diweddaru Archwilio Cymru.

Hysbysodd SW y Pwyllgor fod cyfarfodydd cynllunio paratoadol wedi'u cynllunio i baratoi ar gyfer Archwiliad Ariannol 2025/26, a bod cynlluniau ar waith i brofion samplau ddechrau ar ddechrau 2026.

Rhoddodd KF yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar waith Archwilio Perfformiad. Byddai un eitem heb ei datrys o Gynllun Archwilio 2024/25 (Trawsnewid Digidol) yn cael ei chyflwyno gerbron cyfarfod y Pwyllgor ym mis Mawrth. Roedd dau Adroddiad yn weddill o waith 2025/26. Byddai adroddiad dilynol Adroddiad Adfer Sgrinio 2023 yn cael ei gyflwyno gerbron cyfarfod y Pwyllgor ym mis Mawrth 2026 a byddai Asesiad Strwythuredig 2025 yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod hwn.

Atgoffwyd y Pwyllgor am drafodaethau ynghylch Sgrinio gyda Chyfarwyddwyr Anweithredol a oedd yn tynnu sylw at heriau parhaus o ran cyrraedd targedau mewn rhai meysydd. Pwysleisiodd y Pwyllgor bwysigrwydd sicrhau bod camau dilynol Archwilio Cymru mewn perthynas â gwaith Adfer Sgrinio 2023 yn cyd-fynd â'r pryderon hyn, a hynny er mwyn adlewyrchu'r materion a godwyd ar lefel y Bwrdd. Rhoddodd KF sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai Archwilio Cymru yn ystyried y pryderon ac yn cysylltu â chydweithwyr Archwilio Mewnol a oedd hefyd wedi cynllunio Adolygiad Sgrinio yn 2026/27.

Gofynnodd y Pwyllgor a fyddai cyfle i Archwilio Mewnol gynnal Archwiliad o'r ffordd yr oedd Byrddau Iechyd yn rheoli eu Contractau a Gomisiynwyd gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru. Hysbysodd KF y Pwyllgor am waith sy'n cael ei wneud ar draws chwe Bwrdd Iechyd (ac eithrio Bwrdd Iechyd Addysgu Powys) ynghylch amseroldeb a thegwch mynediad at ddiagnosis a thriniaethau canser.

**Nododd** y Pwyllgor y Diweddariad gan Archwilio Cymru.

<u>Adroddiad Asesiad Strwythuredig Iechyd Cyhoeddus Cymru</u>

**Ystyriodd** y Pwyllgor Adroddiad Asesiad Strwythuredig Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cymeradwyodd y Pwyllgor adroddiad cadarnhaol iawn nad oedd yn cynnwys unrhyw argymhellion.

**Nododd** y Pwyllgor Adroddiad Asesiad Strwythuredig Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Diolchodd KY i SW a KF am y Diweddariad gan Archwilio Cymru a'r Adroddiad Asesiad Strwythuredig a gyflwynwyd.

| **ACGC 7.3/2025.12.16** | **Traciwr Argymhellion Archwilio** |
|---|---|

Ystyriodd y Pwyllgor y Traciwr Argymhellion Archwilio a'radrddiad a nododd nad oedd unrhyw gamau gweithredu yn ymwneud â gwybodaeth sy'n sensitif o ran y busnes ar y Traciwr ar hyn o bryd.

WEDI'I GADARNHAU

Dywedodd LB wrth y Pwyllgor am y sefyllfa bresennol o ran cynnydd a gweithrediad y camau gweithredu rheoli sy'n codi o argymhellion Archwilio Mewnol ac Allanol. Adolygwyd y Gofrestr Tracio Archwilio bob chwarter gan y Tîm Arwain (TA) a oedd yn gyfrifol am gau camau gweithredu, cymeradwyo estyniadau a sicrhau cynnydd o ran gweithredu. Cyflwynwyd y Traciwr gerbron y Pwyllgor hwn bob chwarter i gael Sicrwydd.

Atgoffodd LB y Pwyllgor o'r adborth a ddaeth i law yn y cyfarfod diwethaf, ac eglurodd fod y fformat newydd wedi'i ddatblygu yn dilyn awgrymiadau'r Pwyllgor. Roedd fformat y Traciwr Archwilio'n parhau i esblygu, a gwahoddodd LB adborth ac awgrymiadau ar gyfer datblygiad pellach.

Roedd yr adroddiad eglurhaol yn cynnwys crynodeb o'r newidiadau a wnaed ochr yn ochr â'r rhesymau dros y newidiadau. Datblygiad pwysig oedd y gofyniad newydd i arweinwyr gynnwys sgôr Coch Melyn Gwyrdd (CMG) ar gyfer camau gweithredu nad oeddent wedi'u cwblhau. Bwriad hyn oedd rhoi gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw broblemau tebygol posibl, sef awgrym a wnaed yn y cyfarfod blaenorol. Roedd y sgoriau CMG wedi'u cynnwys ar gyfer pob cam gweithredu gyda'r rhai a nodwyd fel rhai mewn perygl yn cael eu hamlygu i'r Pwyllgor.

Esboniodd LB y fformat dogfennu newydd ar gyfer yr adran hon, a oedd bellach yn cynnwys tair eitem:

- Roedd yr adroddiad eglurhaol yn rhoi trosolwg o'r broses, y cyd-destun ac eglurder ynghylch rolau gwahanol grwpiau.
- Crynhodd y cyflwyniad y trosolwg lefel uchel o'r sefyllfa gyffredinol, ac roedd yn cynnwys yr ychwanegiadau diweddar a'r estyniadau a roddwyd gan y Tîm Arwain (LT). Roedd hefyd yn cynnwys adrannau ar gamau gweithredu yr ystyriwyd eu bod mewn perygl, er nad oeddent i fod i gael eu cwblhau eto; camau gweithredu blaenoriaeth uchel a oedd yn dal i fod yn agored; ac unrhyw gamau gweithredu a drafodwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor mewn cyfarfodydd blaenorol.
- Atodiad a oedd yn rhestru manylion llawn yr holl gamau gweithredu agored.

Ailadroddodd LB nad oedd adroddiad llawn y Tîm Arwain wedi'i gynnwys yn y papurau ar gyfer cyfarfod hwn y Pwyllgor mwyach am ei fod yn hir, ond ei fod ar gael ar gais pe bai unrhyw un yn dymuno ei adolygu.

Yn dilyn y trafodaethau yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor ynghylch Cam Gweithredu 559 - Datblygu darlun cynhwysfawr o Gapasiti presennol y Gweithlu, cyflwynwyd pryderon y Pwyllgor gerbron cyfarfod y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol ar 14 Hydref. Rhannodd Iain Bell yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd, a rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol y byddai'r gwaith yn cael ei gwblhau o fewn y terfyn amser presennol i ofyn am gau'r Cam Gweithredu.

Mynegodd y Pwyllgor eu diolch am fformat newydd yr Adroddiad a ddygodd y pwyntiau mwyaf perthnasol i sylw'r Pwyllgor.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Ystyriodd** y gwelliannau i'r Traciwr Archwilio fel y'u cymeradwywyd gan y Tîm Arwain ar 20 Tachwedd 2025.

WEDI'I GADARNHAU

- Cymerodd **sicrwydd** ynghylch y cynnydd o ran cyflawni'r camau gweithredu a oedd yn deillio o Archwiliadau Mewnol ac Allanol o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- **Nododd** y byddai'r argymhellion o'r Adroddiadau Archwilio Mewnol a ddaeth i law yn y cyfarfod hwn yn cael eu hychwanegu at y Traciwr yn dilyn y cyfarfod.
- **Nododd** nad oedd unrhyw Gamau Gweithredu agored i adrodd amdanynt yn Sesiwn Breifat y Pwyllgor hwn ar hyn o bryd.

| | |
|---|---|
| **ACGC 8/2025.12.16** | **Risg** |
| **ACGC 8.1/2025.12.16** | **Y Gofrestr Risg Gorfforaethol** |

Rhoddodd y Pwyllgor **ystyriaeth** i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

Rhoddodd DG ddiweddariad llafar i'r Pwyllgor am y Gofrestr Risg Gorfforaethol, gan egluro bod amseriad y cyfarfod hwn a chyfarfod y Tîm Arwain (LT) sydd ar ddod yn atal cyflwyno adroddiad ffurfiol i'r cyfarfod.

Esboniodd, yn dilyn cymeradwyo Cofrestr Risg Gorfforaethol mis Medi, fod y Tîm Arwain wedi derbyn uwchgyfeirio pellach, a bod cyfarfod ychwanegol o'r Tîm Arwain wedi'i drefnu ar 18 Rhagfyr i fynd i'r afael â Risgiau a oedd wedi cael diweddariadau cyfyngedig yn unig ers mis Medi. Byddai'r fersiwn wedi'i diweddaru o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd ar 29 Ionawr 2026.

Tynnodd DG sylw at ddwy Risg:

- 2003 - Cyflawni'r Targed Net Sero erbyn 2030 a Charbon Negatif erbyn 2035. Roedd trafodaethau'r Tîm Arwain ym mis Tachwedd 2025 wedi datblygu Cynllun Gweithredu ar gyfer 2026-28. Roedd y cynllun wedi cael ei herio'n gadarn, ac roedd aelodau'r Tîm Arwain wedi gofyn i'w Cyfarwyddiaethau ystyried newidiadau i leihau allyriadau carbon ac integreiddio'r ystyriaethau i brosiectau yn y dyfodol a Chynllun Tymor Canolig Integredig y Sefydliad.
- 2076 - Cydymffurfedd â'r Deddf Cydraddoldeb. Mae'r Risg hon yn ymwneud â methiant y Sefydliad i gyflawni dyletswyddau cyfreithiol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb yn benodol diffyg cydymffurfio â safonau gwybodaeth hygyrch. Ychwanegwyd hyn at y Gofrestr Risg Gorfforaethol ym mis Tachwedd 2025. Cytunodd y Tîm Arwain y byddai argymhelliad yn cael ei ddatblygu i'w ystyried ymhellach. Roedd geiriad y Risg wedi'i gwblhau ac roedd wedi'i ychwanegu at DATIX. Byddai'r argymhelliad yn cynnwys gwaith asesu effeithiau ehangach ac adolygiad o'r broses EQIA.

Gofynnodd y Pwyllgor i'r geiriad a ddefnyddir mewn Adroddiadau gael ei addasu yn y dyfodol, a hynny er mwyn egluro'r arlliwiau ymhlyg yn y diweddariad presennol.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch rheolaeth y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn y sefydliad.

| | |
|---|---|
| **ACGC 9/2025.12.16** | **Llywodraethu ac Atebolrwydd** |
| **ACGC 9.1/2025.12.16** | **Cofnodion Rhannau A a B 8 Mai a 24 Mehefin 2025 a'r Log Camau Gweithredu** |

**Ystyriodd** y Pwyllgor Gofnodion Rhannau A a B o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Medi 2025 a Logiau Camau Gweithredu Rhan A a Rhan B.

WEDI'I GADARNHAU

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Cymeradwyodd** gofnodion Rhan A a Rhan B o gyfarfod 30 Medi 2025, fel cofnodion cywir o'r cyfarfod yn amodol ar ychwanegu Martin Veale at y rhestr o'r rhai a oedd yn bresennol.
- **Cymeradwyodd** gau chwe cham gweithredu a oedd wedi'u cwblhau ar Log Camau Gweithredu Rhan A.
- **Cymeradwyodd** estyniad un cam gweithredu ar Log Camau Gweithredu Rhan A.
- **Cymeradwyodd** gau un cam gweithredu a oedd wedi'i gwblhau ar Log Camau Gweithredu Rhan B.

| ACGC 9.2/2025.12.16 | Adroddiad Chwarterol ar Lywodraethu Gwybodaeth |
|---|---|

**Ystyriodd** y Pwyllgor yr Adroddiad Chwarterol ar Lywodraethu Gwybodaeth ar gyfer Chwarter 2. Cyflwynodd SS yr Adroddiad, a oedd yn cyfuno diweddariadau ar Lywodraethu Gwybodaeth, Llywodraethu Ansawdd a Rheoli Cofnodion.

Tynnodd SS sylw at nifer o bwyntiau allweddol:

- Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FoI). Yn Chwarter dau daeth 50 o geisiadau i law, a chafodd pedwar eu cau. O'r 46 a oedd yn weddill, roedd pedwar dros y terfyn 20 diwrnod, ac felly nid oeddent yn cydymffurfio. Cawsant eu rheoli trwy gyfathrebu rhagweithiol â'r sawl a wnaeth y ceisiadau. Dangosodd y tabl fod yr oedi oherwydd cymhlethdod, cryn lawer o wybodaeth a chymryd cyngor cyfreithiol ar statws eithriad.
- Yng nghyfarfod y Fforwm Arweinyddiaeth ym mis Ionawr 2026, byddai SS yn ymgysylltu ag arweinwyr y Sefydliad i'w hatgoffa o'r rheolau a'r rheoliadau o ran llywodraethu gwybodaeth a sut y dylid glynu'n gaeth at amseroedd.
- Ceisiadau am Fynediad at Ddata gan y Testun. Roedd pedwar cais, yr oedd pob un wedi'i gwblhau o fewn y terfyn amser o 30 diwrnod.
- Trafodwyd achosion o dor diogelwch data yn y sesiwn breifat.
- Roedd y cydymffurfedd â Hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth yn parhau i fod uwchlaw 90%.
- Roedd cyfarfodydd wythnosol yr Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth wedi bod yn effeithiol wrth wella perfformiad. Roedd cyfarfodydd diweddar wedi adolygu a nodi gwelliannau ar gyfer y ddau chwarter nesaf.
- Byddai Bwrdd Rhaglen Llywodraethu Gwybodaeth a Seiberddiogelwch yn cael ei sefydlu i gysylltu Seiberddiogelwch yn well â Llywodraethu Gwybodaeth. Yn ogystal, byddai'r Bwrdd newydd hefyd yn gwasanaethu fel y fforwm i gymeradwyo'n ffurfiol benderfyniadau o ran llywodraethu gwybodaeth, sef maes y gellid ei gryfhau. Byddai'n atebol i'r Awdurdod Dylunio Technoleg Ddigidol a Data.
- Byddai'r Fforwm Llywodraethu Gwybodaeth yn cael ei gryfhau, gan wneud presenoldeb yn orfodol i Berchnogion Asedau Gwybodaeth, sef y bobl allweddol sy'n gyfrifol am Lywodraethu Gwybodaeth o fewn eu Cyfarwyddiaethau.

Nododd y Pwyllgor nad oedd y Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a restrir ar y wefan wedi cael eu diweddaru ers cyfnod sylweddol. Esboniodd SS fod tîm y we wedi gofyn i'r tîm Llywodraethu Gwybodaeth roi'r gorau i gyhoeddi diweddariadau Rhyddid Gwybodaeth nes bod y wefan newydd yn gwbl weithredol. Hysbysodd y Pwyllgor fod y Pennaeth

WEDI'I GADARNHAU

Llywodraethu Gwybodaeth yn cynnal trafodaethau â'r Bwrdd Rhaglen sy'n gyfrifol i sicrhau y gellid diweddaru'r Rhestr bresennol o Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth cyn gynted â phosibl.

Ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad Perfformiad ar Lywodraethu Gwybodaeth a chymerodd sicrwydd bod y Rhaglen Gweithredu Rheoli Cofnodion ar SharePoint wedi'i chwblhau, ynghyd â'r dull arfaethedig o wireddu buddion.

| | |
|---|---|
| **ACGC 9.3/2025.12.16** | **Amserlen Cyfrifon ac Adroddiad Atebolrwydd Blynyddol 2025/26** |

**Ystyriodd** y Pwyllgor Amserlen Cyfrifon ac Adroddiad Atebolrwydd Blynyddol 2025/26.

Cyflwynodd AW ac IK Amserlen Cyfrifon ac Adroddiad Atebolrwydd Blynyddol 2025/26. Esboniodd AW fod yr amserlen ddrafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor er gwybodaeth yn dibynnu ar y canllawiau a'r amserlen a ddisgwyliwyd yn fuan gan Lywodraeth Cymru.

Roedd cyfarfod cynllunio paratoadol wedi cael ei gynnal gyda chydweithwyr yn Archwilio Cymru, ac roedd yn credu bod yr amserlen a nodir yn Atodiad Un yn caniatáu i'r Cyfrifon Blynyddol gael eu paratoi a'u cyflwyno'n amserol. Roedd yn cyd-fynd â dyddiadau yn 2024/25, a byddai hi ac IK yn diweddaru'r amserlen a rhoi gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw newidiadau.

Cadarnhaodd IK fod disgwyl i'r Llawlyfr Drafft ar gyfer Cyfrifon gael ei gyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn. Byddai'n cadarnhau'r dyddiadau cyflwyno; nid oedd ganddo unrhyw bryderon ynghylch bodloni'r dyddiadau cau am fod y dyddiadau'n cyd-fynd â dyddiadau'r blynyddoedd blaenorol.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd y dyddiad cyflwyno o 8 Mai a'r ffaith bod cyfarfod y Pwyllgor yn cael ei gynnal ar 7 Mai yn caniatáu digon o amser pe bai problemau neu bryderon yn codi yn y cyfarfod. Cadarnhaodd IK a LB fod yr amseru bob amser yn dynn, a bod amseriadau tebyg wedi digwydd ym mis Mai 2025. Sicrhawyd y Pwyllgor y byddai drafft cynnar yn cael ei ddosbarthu i'r Pwyllgor er mwyn caniatáu cymaint o amser â phosibl ar gyfer craffu.

**Rhoddwyd sicrwydd i'r** Pwyllgor bod gan yr Ymddiriedolaeth gynllun priodol ar waith ar gyfer cynhyrchu'r Datganiadau Ariannol a'r Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer 2025/26, a hynny yn unol â'r terfynau amser statudol.

WEDI'I GADARNHAU

| | |
|---|---|
| **ACGC 10/2025.12.16** | **Er Gwybodaeth** |
| **ACGC 10.1/2025.12.16** | **Cyllid, Caffael ac Atal Twyll** |

Dim.

| | |
|---|---|
| **ACGC 10.2/2025.12.16** | **Archwilio Mewnol, Allanol a Chlinigol** |

Dim.

| | |
|---|---|
| **ACGC 10.3/2025.12.16** | **Rheoli Risg** |

| | |
|---|---|
| **Ystyriodd** y Pwyllgor y Gofrestr Risg Strategol lawn er gwybodaeth, a **nododd** fod y risg strategol o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn (SRR6) wedi'i thrafod yn y sesiwn breifat. | |
| **ACGC 10.4/2025.12.16** | **Llywodraethu ac Atebolrwydd** |
| Dim. | |
| **ACGC 10.5/2025.12.16** | **Cynllun Gwaith y Pwyllgor** |
| Gwnaeth y Pwyllgor **ystyried** Cynllun Gwaith y Pwyllgor a'i **nodi**. | |
| **ACGC 11/2025.12.16** | **Camau dod â'r cyfarfod i ben** |
| Gofynnwyd i'r Pwyllgor roi adborth ar y cyfarfod i LB.<br><br>**Dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor:** 23 Mawrth 2026.<br><br>**Unrhyw Fater Arall:**<br><br>Diolchodd KY i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben. | |
| Daeth y cyfarfod i ben am 12:25 | |

WEDI'I GADA...